


**Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg**

**Beth yw ein hysbysiad preifatrwydd a pham mae angen i chi wybod amdano?**

| | |
|---|---|
|   | Mae hon yn fersiwn **hawdd ei darllen** o'n hysbysiad preifatrwydd llawn.<br>Gallwch ddarllen y fersiwn lawn ar ein gwefan yma<br>Rhaid inni roi'r wybodaeth hon i chi yn ôl y gyfraith. |
|   | Ystyr GDPR yw "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol" a daeth yn gyfraith ar 25 Mai 2018. Mae'n golygu bod rhaid i ni amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch chi'n defnyddio ein gwasanaethau. |
|   | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich helpu i ddeall:<br><br>**Pa** wybodaeth bersonol rydym yn ei |

| | |
|---|---|
| | chasglu |
|  | **Sut** y defnyddiwn y wybodaeth |
|  | Gyda **phwy** y rhannwn y wybodaeth |
|  | **Pa mor hir** rydym yn cadw'r wybodaeth |
| **Pa wybodaeth a gasglwn amdanoch chi** | |

| | |
|---|---|
|  | Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol neu sensitif amdanoch chi. Gallai'r wybodaeth hon fod yn:<br><br>Wybodaeth am ffordd o fyw a gwybodaeth gymdeithasol<br>• Enw<br><br>• Dyddiad geni |




- Gwybodaeth am eich teulu
- Manylion cyswllt brys




- Cyfeiriad cartref





- Gwybodaeth iechyd fel y feddyginiaeth rydych chi'n ei chymryd
- Problemau a thriniaethau iechyd a gewch
- Anableddau





- Hil, crefydd neu gredoau

**Casglu a Defnyddio'ch Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **I beth rydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth?** | Dim ond er mwyn ei defnyddio i wneud ein gwaith yr ydym yn casglu eich gwybodaeth.<br><br> Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i wneud cofnod cyfrifiadur amdanoch chi a'ch anghenion gofal |

| | |
|---|---|
| <br> | cymdeithasol.<br><br>Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth i:<br><br>• Gysylltu â'ch teulu<br>• I'ch amddiffyn<br>• I wella ein gwasanaethau |
| **Rhesymau cyfreithiol**<br> | Y rhesymau cyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth bersonol yw:<br><br>• I sicrhau ein bod yn eich cadw'n ddiogel<br><br>• Cydsyniad |

<table>
<tr>
<td>A fydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu?<br>.<br><br><br><br></td>
<td>Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un arall heb eich caniatâd, oni bai bod y gyfraith yn dweud y gallwn neu y dylem wneud hynny.</td>
</tr>
<tr>
<td>Gyda phwy y gellir rhannu'ch gwybodaeth (yn fewnol ac yn allanol)<br><br><br><br><br><br></td>
<td>Efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Gall hyn fod gyda sefydliadau neu weithwyr proffesiynol eraill i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth gywir:<br><br>• Gall y rhain fod yn eiriolwyr (pobl sy'n gweithredu ar eich rhan)<br>• Ysgolion<br>• Timau eraill y Cyngor fel y gallant gefnogi ein gwasanaeth<br>• Yr Heddlu.<br>• Meddygon</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td>Pa mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?<br>
</td><td>Nid ydym yn ei chadw am byth, dim ond cyhyd ag y bydd ei hangen arnom i'n helpu i gyflenwi’n gwasanaeth i chi.<br><br>Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth cyhyd â bod ein rheolau yn dweud wrthym. Mae gwahanol adegau ar gyfer pob math o wybodaeth sydd gennym.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Beth yw eich hawliau?</td></tr>
<tr><td>
</td><td>Mae gennych hawl i:<ul><li>Ddweud wrthym sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.</li><li>Ofyn am gael gweld y wybodaeth sydd gennym ni.</li><li>Ofyn i ni newid gwybodaeth rydych chi'n meddwl sy'n anghywir.</li><li>Ofyn i ni gael gwared ar wybodaeth pan nad oes ei hangen mwyach.</li><li>Ddweud wrthym nad ydych chi am i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Sut rydym yn gofalu am wybodaeth bersonol:</td></tr>
<tr><td>Diogelwch<br><br>Gwybodaeth</td><td>Byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn storio unrhyw wybodaeth nad oes ei hangen arnom yn gyfreithiol.<br><br>Rydym yn cyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth bersonol i'r bobl sydd ei hangen i sicrhau eich bod yn cael y gofal a'r gefnogaeth gywir<br><br>Mae gennym reolau yn eu lle i helpu i atal gwybodaeth rhag cael ei cholli neu ei defnyddio yn y ffordd anghywir</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>
</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>
</td>
<td>I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, gellir cysylltu â Thîm Rheoli Gwybodaeth y Cyngor ar FOIUnit@bromorgannwg.gov.uk</td>
</tr>
</table>

Thanks to easy on the i for the use of their image bank © LYPFT
www.easyonthei.nhs.uk